MENTER IAITH MAELOR

Adroddiad Blynyddol

2009-2010

BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

wrexham COUNTY BOROUGH COUNCIL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL wrecsam

Cynnwys

	Tudalen
Rhagair y Cadeirydd	3
Crynodeb Gweithredol	4
Cenhadaeth Menter Iaith Sir y Fflint	4
Pennod 1 - Mudiadau a Phartneriaethau	5
Pennod 2 - Rhieni Ifanc	6
Pennod 3 - Plant	6
Pennod 4 - Hyder Ieithyddol	7
Pennod 5 - Pobl Ifanc	7
Pennod 6 - Sector Breifat	8
Pennod 7 - Marchnata a Chyhoeddusrwydd	9
Pennod 8 - Y Strwythur Rheoli a Staffio	9
Pennod 9 - Gweithredu, Monitro ac Adolygu	10
Pennod 10 – Crynodeb o'r Datganiad Ariannol	12

Rhagair y Cadeirydd

Bu'n gyfnod gwahanol iawn yn hanes y Fenter gan nad oedd gennym Swyddog Datblygu wrth y llyw. Yn hytrach fe fu i ni brynu gwasanaeth Gwawr a'i thîm fel Prif Swyddog a Swyddogion Busnes i osod seiliau a strwythurau cadarn yn eu lle, ac fel y gwelwch yn yr Adroddiad hwn, cafwyd cryn lwyddiant yn y gwaith. Diolch i Gwawr, Ellie a Rhian am eu gwaith ac i Fenter Iaith Fflint am eu cydweithrediad parod yn y cynllun. Erbyn hyn mae Swyddog Datblygu rhan amser newydd gennym, Siân Edwards, yn barod i ddechrau ar ei gwaith.

Bu i ni hefyd, ar y cyd gyda Chyngor Wrecsam a'r Urdd, fedru penodi Swyddog Ieuenctid Cymraeg i'r sir, Sara Mair, ac mae hithau wedi bod yn brysur yn trefnu a chynllunio'i gwaith.

Ac yn ogystal â hyn i gyd mae Michelle Murphy yn parhau gyda'i gwaith yn y Wrecsam wledig ac yn llwyddo yn ei hymchwil a'i threfnu yn yr ardaloedd amrywiol.

Cryn waith a chryn gynnwrf, ac edrychwn ymlaen at gyfnod newydd a llwyddiannus yn ein hanes.

Diolch i aelodau'r Bwrdd Rheoli am eu gwaith ac am roi mor hael o'u hamser a'u hadnoddau, a diolch i bawb o'n partneriaid am eu llafur, eu gweledigaeth a'u hymroddiad

Trefor Jones-Morris

Crynodeb Gweithredol

Sefydlwyd Menter Iaith Maelor yn 1999 gan wirfoddolwyr lleol er mwyn gwireddu dyheadau pobl leol am fudiad cymunedol a fyddai'n hyrwyddo'r Gymraeg yn yr ardal er mwyn sicrhau bod yr iaith yn cyrraedd ei photensial.

Mae'r Fenter wedi ei chofrestru fel cwmni cyfyngedig dan warant ers 1af Awst 2006 ac nid yw'n gweithredu er mwyn creu elw. Mae gan y Fenter Bwyllgor Rheoli profiadol , brwdfrydig ac ymroddgar sydd wedi eu dethol o'r aelodaeth ehangach ac sydd yn meddu ar arbenigedd eang o fyd busnes, sector wirfoddol, addysg a gweinyddiaeth gyhoeddus.

Croesewir unrhyw un sy'n cytuno a nodau ac amcanion y Fenter i ddod yn aelod. Ei phrif swyddogaeth yw datblygu ac ehangu'r defnydd o'r Gymraeg yng nghymunedau Sir Wrecsam. Bwrdd yr Iaith Gymraeg yw prif gyllidwyr y Fenter ac mae hi hefyd yn ogystal wedi llwyddo i ddenu nawdd yn flynyddol gan Gyngor Sir Wrecsam at gostau staffio. Sicrhawyd nawdd ychwanegol o'r Rhaglen Datblygu Wledig a ariannir yn rhannol gan yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gweithredu Ymchwil a Datblygu'r Iaith Gymraeg ar gyfer y cyfnod 2008-11. Lleolir swyddfa'r Fenter yn Nhŷ AVOW - adeilad Cyngor Gwirfoddol Wrecsam yng nghanol dref Wrecsam. Asesir gwaith y Fenter yn flynyddol gan Fwrdd yr Iaith yn unol â thargedau penodol a gytunwyd rhwng Bwrdd Cyfarwyddwyr Menter Iaith Maelor a Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'r targedau yn cyd-fynd a'r blaenoriaethau a amlinellwyd yng Nghynllun Corfforaethol y Fenter am y cyfnod 2010-13 yn dilyn ymgynghoriad gyda'r aelodau, budd-ddeiliaid a phartneriaid yn 2009.

Cenhadaeth Menter Iaith Maelor

Gwaith y Fenter yw ehangu, hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn Sir Wrecsam.

Bydd y Fenter yn cyflawni hyn drwy:

- Drefnu gweithgareddau fydd yn rhoi cyfle i rai o bob oed ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol
- Dod a mudiadau at ei gilydd i godi proffil yr iaith Gymraeg
- Annog cyrff cyhoeddus a busnesau i ddefnyddio'r Gymraeg, a chymell Cymry Cymraeg a dysgwyr i ddefnyddio'r gwasanaethau
- Gweithredu fel canolfan wybodaeth am weithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg yn ardal Wrecsam.
-

Mae'r ddogfen yma yn adroddiad ar waith y Fenter ac yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2009 a mis Mawrth 2010.

Pennod 1: Mudiadau a Phartneriaethau

Mae'r Fenter yn parhau i feithrin perthynas a datblygu cysylltiadau gyda nifer o bartneriaid yn y sector gyhoeddus a'r sector wirfoddol er mwyn sicrhau mwy o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r **Fforwm Sirol** o bartneriaid iaith y Sir yn cyfarfod yn chwarterol, gyda'r Fenter yn cydlynu a chadeirio'r cyfarfodydd. Mae'r partneriaid wedi llwyddo i gydweithio yn effeithiol i rannu ymarfer da a cheisio dylanwadu ar lefel strategol er mwyn newid arferion a chynyddu defnydd o'r Gymraeg gan y sector wirfoddol ar sector gyhoeddus. Mae aelodaeth y Fforwm wedi cynyddu mewn niferodd yn ystod y cyfnod drwy gyfuno gyda Fforwm Sirol Sir y Fflint gyda'r mudiadau canlynol yn aelodau: - **Menter Iaith Sir y Fflint**, **Urdd Gobaith Cymru**, **Mudiad Ysgolion Meithrin, TWF, Cyngor Sir y Fflint** a **Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Menter a Busnes, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Ffermwyr Ifanc, Merched y Wawr, Popeth Cymraeg, Prifysgol Cymru Bangor, Coleg Glannau Dyfrdwy ,Canolfan Cymraeg i Oedolion, Cadwyn Clwyd, Estyn Llaw, Rhieni Dros Addysg Gymraeg , Coleg Glyndŵr** a **Choleg Iâl.**

Sicrhaodd y Fforwm nawdd gan **Fwrdd yr Iaith Gymraeg** a **Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam** i gyflogi **Swyddog Ieuenctid** ar y cyd gyda'r **Urdd** a'r **Cyngor Sir**. Mae'r swyddog gyda chyfrifoldeb am ddatblygu'r a chynyddu'r ddarpariaeth yn y Gymraeg i blant a phobl ifanc y sir.

Derbyniodd Menter Iaith Maelor nawdd o **£49,000** ar gyfer gweithredu prosiect **Datblygu'r Iaith Gymraeg** yng nghymunedau gwledig y Sir rhwng 2008-11, a ariannir yn rhannol gan yr **Undeb Ewropeaidd** a **Llywodraeth Cynulliad Cymru**. Mae'r nawdd wedi galluogi'r Fenter i gyflogi **Swyddog Prosiect Ymchwil a Datblygu'r Iaith Gymraeg** sydd wedi trefnu cyfres o **ddigwyddiadau** a **gweithgareddau** er mwyn **codi ymwybyddiaeth** o'r iaith Gymraeg a **diwylliant** cyfoethog y sir. Elfen bwysig arall o'r prosiect oedd cynnal astudiaeth ar **Broffil Ieithyddol** y Sir er mwyn nodi'r **gwasanaethau** a'r **mudiadau Cymraeg** sy'n gweithredu yn ardaloedd gwledig y Sir.

Yn dilyn cyfnod o ymgynghori gyda phartneriaid, budd- ddeiliaid a chynrychiolwyr o'r gymuned, mae'r Fenter wedi mabwysiadu **Cynllun Corfforaethol** a **Rhaglen Weithredu** sydd yn nodi amcanion strategol y Fenter ar gyfer y cyfnod **2010 -13.**

Mae'r Fenter yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi grwpiau cymunedol sydd yn gweithredu yn wirfoddol er mwyn hyrwyddo iaith a diwylliant Wrecsam ac wedi rhoi cefnogaeth i **Bwyllgor Gŵyl y Berwyn** yn ystod y cyfnod:

Rydym wedi llwyddo i ddatblygu **perthynas** newydd gyda chyrff a mudiadau amrywiol, megis **Gwasanaeth Gwybodaeth Teuluoedd, Cynllun Iaith a Chwarae** a **Chyngor Lleol Gwirfoddol Wrecsam**

sydd am fynd ati i gynyddu'r defnydd o'r **iaith Gymraeg**. Byddwn yn parhau i adeiladu ar y gwaith yma yn y dyfodol.

Rydym yn parhau i gefnogi mudiadau a sefydliadau lleol drwy gynnig gwasanaeth cyfeirio at **Linell Gyswllt** Bwrdd yr Iaith Gymraeg a gwasanaethau **Cyfieithu.**

Pennod 2: Rhieni Ifanc

Mae'r Fenter am gynorthwyo i ddwyn perswâd ar rieni ifanc i drosglwyddo'r iaith i'r genhedlaeth nesaf er mwyn cynyddu'r canran o deuluoedd lle mae'r Gymraeg yn brif iaith y cartref. Mi fyddwn yn sicrhau cyfleoedd i deuluoedd ifanc i ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd cymdeithasol drwy gynnal gweithgareddau cyffroes a chyfoes er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y sir.

Trefnodd y Fenter **Gig** gyda **Gwibdaith Hen Fran** ar gyfer teuluoedd yn **Neuadd y Glowyr**, **Llai** ar 20fed Tachwedd 2009. Cynhaliwyd sesiynau **blasu iaith** ar gyfer rhieni ifanc mewn sesiynau gyda Staff Cynlluniau **Iaith a Chwarae** yn ystod misoedd Chwefror a Mawrth 2010.

Pennod 3: Plant

Mae'r Fenter am gydweithio gyda sefydliadau addysg a gofal plant i sicrhau fod darpariaeth Gymraeg ar gael i holl blant y sir o fewn eu cymunedau lleol. Mi fydd y Fenter yn sicrhau cyfleodd iddynt gael defnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd anffurfiol er mwyn normaleiddio defnydd o'r iaith yn gymdeithasol.

Cydweithiodd y Fenter gydag Ysgolion Cynradd y Sir i ddatblygu cyfres o weithdai, megis gweithdai barddoni gyda blynyddoedd 3,4,5 a 6 yn **Ysgol Gynradd Llanarmon Dyffryn Ceiriog** ym Mis Mai 2009 er mwyn rhoi cyfle iddynt gael dehongli eu **hunaniaeth Gymreig** drwy'r broses greadigol. Cafodd y plant gyfle i berfformio eu gwaith yn ystod **Gŵyl y Berwyn** ar 17eg Mai 2009.

Cynhaliwyd nifer o sesiynau siarad gyda phlant a phobl ifanc Blynyddoedd 5, 6, 7 ac 8 er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg mewn ysgolion ail iaith megis **Ysgol Rhiwabon** yn ogystal â chynnal gweithgareddau ar gyfer **clybiau ar ôl ysgol**

Ail sefydlwyd **Aelwyd Adran** yn **Rhosllannerchrugog** ar gyfer oedran cynradd 8 - 11 oed dan ofal y Swyddog Ieuenctid. Bu'r Swyddog Ymchwil i'r Gymraeg a'r Swyddog Ieuenctid yn trefnu cyfres o weithdai blasu drama yn ysgolion cynradd y sir ym mis Tachwedd 2009 er mwyn hyrwyddo **Theatr Ifanc Maelor**. Llwyddwyd i ddenu 15 o aelodau newydd i'r sesiynau.

Cynhaliwyd cyfres o 4 weithdai **Crefft a Chan - Santes Dwynwen** gyda 97 o blant o fewn ardal weithredu'r Rhaglen Datblygu Wledig yn ystod Mis Ionawr 2010. Roedd yn gyfle i godi ymwybyddiaeth y plant am len gwerin a hanes Cymru ynghyd ac ymarfer eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol.

Pennod 4: Dysgwyr – Hyder Ieithyddol

Un o brif amcanion y Fenter yw cynorthwyo i gynyddu'r niferoedd sy'n siarad Cymraeg a chryfhau sefyllfa'r Gymraeg fel iaith gymunedol.

Cynhaliwyd **Eisteddfod y Dysgwyr** ym Mis Chwefror 2009 yn Theatr John Ambrose, Rhuthun mewn cydweithrediad â Mentrau Iaith Maelor a Dinbych,. Mi fydd y Fenter yn parhau i gefnogi'r Ganolfan Iaith i Oedolion a'r darparwyr Addysg Gymraeg i Oedolion i hyrwyddo a marchnata'r Eisteddfod i Ddysgwyr y Sir yn 2010 ynghyd a gweithgareddau eraill.

Mae'r **Swyddog Ymchwil a Datblygu** wedi cefnogi **Dysgwyr** mewn nifer o **Sesiynau Siarad** yn ystod y cyfnod yng **Nghaffi Canolfan Garddio Bellis** ar y Dydd Sadwrn cyntaf o'r mis yn **Holt**, ac ar nos Fawrth yn **Nhafarn Yr Haul** yn **Rhosllannerchrugog**. Hefyd, **Sesiwn Siarad** yn **Nhafarn Y Dderwen** yng **Nglyn Ceiriog** ar y cyntaf a thrydedd nos Iau yn y mis.

Pennod 5: Pobl Ifanc

Mae'r Fenter wedi parhau i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg ymhlith yr ifanc ac yn edrych i greu cyfleodd i bobl ifanc gael defnyddio eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd cymdeithasol.

Trefnodd y Pwyllgor Adloniant gig gyda **Bryn Fôn a'r Band** yn **Central Station**, Wrecsam ar Nos Wener 12fed Mehefin 2009.

Cynhaliwyd noson o **Gerdd a Chan** ar 24ain Medi yng Nglyn Ceiriog gydag **Aled Lewis Evans** a **Robin Bala.** Cynhaliwyd noson yn y **Sun Inn** yn Rhosllannerchrugog ar Dachwedd 26ain gyda'r artist **Meilir**, mynychodd dros 50 o bobl ifanc y digwyddiad.

Mi fydd y swyddogion yn cydweithio gyda disgyblion Blynyddoedd 12 a 13 **Ysgol Morgan Llwyd** er mwyn sicrhau cyfleodd gwirfoddoli ar gyfer y **Fagloriaeth Gymraeg**. Yn ychwanegol bu'r Swyddog Ieuenctid yn cydweithio gyda **Swyddog Dug Caeredin** er mwyn edrych am gyfloed i'r plant yn y Gymraeg.

Cynhaliwyd gweithdy **Roc a Radio** yn **Ysgol Morgan Llwyd** ar 8fed Hydref 2009 mewn cydweithrediad a **C2** a **Cherdd Gymunedol Cymru**. Mynychodd yn agos i 30 o blant y gweithdai a threfnwyd **Gig** yn y **Tivoli**, Bwcle ar 9fed Hydref ar gyfer disgyblion Bl 10-12 **Ysgolion Uwchradd Gymraeg** Siroedd Dinbych, Fflint a Wrecsam. Cafodd disgyblion o **Ysgol Morgan Llwyd** gyfle i berfformio mewn band ar y noson.

Cynhaliwyd **gweithdai roc** gyda **Gwibdaith Hen Fran** yn Ysgol Uwchradd Gymraeg Morgan Llwyd ac **Ysgol Gynradd ID Hooson** yn Rhosllannerchrugog ar 24ain Tachwedd. Cafodd dros 80 o blant a phobl ifanc gyfle i gyfranogi yn y gweithdai yn ystod y diwrnod.

Cydweithredodd y Fenter gyda'r **Urdd** a **Menter Iaith Maelor** unwaith eto eleni i gynnal cystadleuaeth dalent "**Talent FfM"** ar gyfer pobl ifanc ym Mis Rhagfyr 2009. Daeth nifer o ieuenctid siroedd Wrecsam, Fflint, Dinbych a Chonwy i gystadlu o flaen cynulleidfa sylweddol yng Ngwesty'r Springfield, Treffynnon.

Trefnwyd y gweithgareddau canlynol ar gyfer y bobl ifanc:- **Parti Nadolig** yr Adran a thaith i **Laser Quest** ym Mis Chwefror. Llwyddwyd i greu cyfleoedd i bobl ifanc 16+ i gynorthwyo gyda'r Adran er mwyn ennill oriau gwirfoddoli ar gyfer **Gwobr Dug Caeredin** a'r **Fagloriaeth Gymraeg**.

Bu'r Swyddog Ieuenctid yn cydweithio gyda disgyblion **Ysgol Morgan Llwyd** i sefydlu **Fforwm Ieuenctid** yn yr ysgol, gyda bwriad o ddenu rhagor o bobl ifanc i'r Fforwm er mwyn sicrhau cyfranogiad ehangach ganddynt cyn ymweliad yr **Eisteddfod Genedlaethol** i'r sir.

Trefnwyd **Gig** gyda **Dan Lloyd** yn **Theatr Y Stiwt** ar gyfer pobl ifanc yr ardal ym mis Hydref , er cafwyd ystod eang o oedran yn y gynulleidfa a daeth yn agos i **50 o bobl ifanc** i'r digwyddiad i fwynhau perfformiad yr artist lleol

Bu'r Swyddog Ieuenctid yn cynorthwyo **Grŵp Ieuenctid Coleg Iâl** gyda materion yn ymwneud a'r Gymraeg.

Cynhaliwyd gweithdy drymio yng **Nghlwb Ieuenctid Coedpoeth** ar 24 o Fawrth gyda **Andy Hickey** a fu'n trafod am ei brofiadau yn gweithio yn y byd cerddorol drwy gyfrwng dwy iaith. Hefyd cafwyd cyfle i gynnal **sesiwn ymwybyddiaeth** gyda'r bobl ifanc am **fanteision dwyieithrwydd** wrth wneud **dewisiadau gyrfaol**.

Cafodd 10 o bobl ifanc o **Aelwyd Morgan Llwyd** gyfle i ymweld â **Chanolfan Nantyr** yn **Nyffryn Ceiriog** yn ystod 5,6,7 Mawrth 2010. Mae 'r gwaith paratoi ar gyfer cynnal **Taith Noddedig** i fyny'r **Wyddfa** ar waith ar gyfer **Haf 2010** er mwyn codi arian at apêl **Eisteddfod Wrecsam a'r Cyffiniau 2011**.

Pennod 6: Sector Breifat

Cydnabyddai'r Fenter fod gan gwmnïau a busnesau rôl bwysig i'w chwarae er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn ymdreiddio i'n bywydau bob dydd. Mae'r Fenter wedi parhau i gydweithio gydag Uned Sector Breifat, Bwrdd yr Iaith Gymraeg i geisio cyfleodd newydd i weithio gyda chwmnïau lleol a'u perswadio i ddefnyddio'r Gymraeg

Pennod 7: Marchnata a Chyhoeddusrwydd Digwyddiadau

Rydym wedi canolbwyntio ar ddatblygu proffil y Fenter yn ystod cyfnod yr adroddiad er mwyn creu **delwedd gyfoes a deniadol** o weithgareddau a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn y sir. Rydym wedi llwyddo i feithrin perthynas agos gyda'r **wasg** leol, a'r **cyfryngau** er mwyn creu agwedd bositif at yr iaith Gymraeg, hyn oll mewn partneriaeth gydag aelodau'r Fforwm Iaith Sirol a phartneriaid eraill. Sicrhawyd cyhoeddusrwydd yn ystod y cyfnod gydag erthyglau rheolaidd yn ymddangos yn y Papurau Bro leol, **Y Cymro**, a'r **Wrexham Leader** ynghyd a chael darlledu cyfres o **raglenni** ar orsaf radio **Calon FfM**.

Pennod 8: Y Strwythur Rheoli a Staffio

Ers Mis Ebrill 2009 mae'r Fenter wedi gweithredu strwythur staffio newydd er mwyn galluogi iddi gyflawni ei nodau a'u hamcanion yn y tymor byr i ganolig. Cyflogir **Rheolwr**- rhan amser a **Swyddog Busnes** - rhan amser drwy gytundeb lefel gwasanaeth gyda **Menter Iaith Sir y Fflint** hyd at 31 Mawrth 2010. Apwyntiwyd **Swyddog Ieuenctid** ym Mis Mai 2009 ar gytundeb 3 mlynedd a chyllidir y swydd yma yn rhannol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, Yr Urdd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Cyflogir **Swyddog Datblygu Ymchwil i'r Gymraeg** - rhan amser o'r cynllun Rhaglen Datblygu Wledig Wrecsam a ariannir yn rhannol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Undeb Ewropeaidd. Bwriedir penodi **Swyddog Datblygu Cymunedol** - rhan amser o fis Ebrill 2010.

Dyma'r rhestr o **Gyfarwyddwyr** a **Swyddogion** Menter Iaith Maelor yn ystod cyfnod yr Adroddiad:

Cyfarwyddwyr:-

Cadeirydd – Trefor Jones-Morris

Trysorydd - David M James

Ysgrifennydd y Cwmni - Catherine Eleri Lewis

Alun J Emanuel

L Gwenan Emanuel

Ann Ll Hughes

Gareth R Williams

Nerys Jackson

Arfon Jones – ymddiswyddo mis Mai 2009

Bob Jones

John Pritchard – penodwyd mis Ionawr 2010

Staff

Gwawr Cordiner - Rheolwr (rhan amser)

Rhian Davies - Swyddog Busnes (rhan amser)

Ellie Pritchard - Swyddog Busnes (rhan amser)

Michelle Murphy - Swyddog Datblygu ac Ymchwil i'r Iaith Gymraeg (rhan-amser)

Sara Mair Jones - Swyddog Ieuenctid (llawn amser ar gyfnod mamolaeth ers Mawrth 2010)

Nia Meleri - Swyddog Ieuenctid (llawn amser dros gyfnod mamolaeth - penodwyd Mawrth 2010)

Siân Edwards - Swyddog Datblygu Cymunedol (rhan amser) - penodwyd Mawrth 2010.

Pennod 9: Gweithredu, Monitro ac Adolygu

Mabwysiadwyd y **Cynllun Corfforaethol** a'r **Rhaglen Weithredu** yn dilyn ymgynghoriad gyda'r aelodau, ein partneriaid a'n cefnogwyr yn ystod Mis Gorffennaf a Mis Awst 2009. Sicrhawyd grant o £31,518 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2009-10 yn dilyn ein cais i Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn Medi 2008. Cytunwyd ar y **Targedau** canlynol gyda'r Bwrdd:-

Targedau
Cydweithio â Phartneriaid y Bwrdd sy'n cynnwys, Urdd Gobaith Cymru, Clybiau Ffermwyr Ifanc, Eisteddfod Genedlaethol, Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, Mudiad Ysgolion Meithrin, Merched y Wawr, Papurau Bro, Cymdeithas Eisteddfodau Cymru, Estyn Llaw, Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig, Cerdd Gymunedol Cymru, Gwobr Dug Caeredin trwy gynnal cyfarfodydd, cydweithio ar brosiectau fel bo'r galw a pharhau i arwain y Fforwm Sirol gan gynnal o leiaf 4 cyfarfod y flwyddyn.
Cydweithio â'r Bwrdd i hyrwyddo a chefnogi prosiectau ac ymgyrchoedd (lle bo'n berthnasol) i gynnwys, Marchnata Addysg Gymraeg, Twf, Llinell Gyswllt â'r Gymraeg / Gwaith Cartref, Mae Gen ti Ddewis, Cefnogi Arferion Iaith Pobl Ifanc, Iaith Gwaith, Cefnogi'r Gymraeg, Cynlluniau Gweithredu Iaith, ac eraill fel bo'r galw.
Cynyddu cyfleoedd i deuluoedd gymdeithasu drwy gydweithio gyda phartneriaid perthnasol i gynnal 2 weithgaredd penodol i deuluoedd (trwy'r Gweithgor Adloniant) Targedu oedran 8 - 14 oed er mwyn cynyddu'r cyfloed i ddefnyddio'r Gymraeg, drwy sicrhau cyfleodd addysgiadol a chymdeithasol ar gyfer 70 o blant o fewn ardal weithredu'r Rhaglen Datblygu Wledig. Targedu oedran 16 - 30 er mwyn cynyddu'r cyfloedd i ddefnyddio'r Gymraeg, drwy sicrhau cyfleodd addysgiadol a chymdeithasol ar gyfer 120 o bobl ifanc o fewn ardal weithredu'r Rhaglen Datblygu Wledig.
Cynnal trafodaeth gyson gyda'r Urdd a'r Cyngor Sir i drafod rhaglen waith y Swyddog Ieuenctid newydd. Sicrhau bod adroddiad yn cael ei dderbyn yn chwarterol ar y targedau isod ac ar y gwaith yn gyffredinol Gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn y cyfnod pontio (blwyddyn 6,7 ac 8) er mwyn dylanwadu a pherswadio ar eu defnydd iaith trwy gynnal 6 o glybiau Cymraeg a gweithdai amrywiol Targedu'r oedran 14 - 25 er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg trwy Sicrhau cyfleoedd addysgiadol a chymdeithasol ar gyfer ieuenctid led y sir Cynnal arolwg o ddarpariaeth Cymraeg ar gyfer yr oedran 14 - 25 mewn partneriaeth agos gyda'r Urdd a CFFI er mwyn adnabod cyfleoedd newydd i gynnal gweithgarwch Cynnal 4 o weithdai amrywiol ar gyfer y grŵp targed 14 - 25 Cynorthwyo grwpiau / fforymau ieuenctid lleol i gynnal 3 o gigs tu allan i oriau ysgol.
Datblygu ar y bartneriaeth gyda'r Awdurdod Lleol drwy gynnal cyfarfodydd gyda'r Arweinydd, y Deilydd Portffolio Addysg, y Swyddog Iaith a'r Swyddog Dysgu a Chyflawniad.
Llunio Cynllun Busnes a Chynllun Strategol ar gyfer y Fenter ar gyfer 2010 - 2013 Datblygu partneriaethau cadarn o fewn y sir. Cynnal adolygiad o bolisïau a gweithdrefnau'r Fenter. Datblygu Systemau cyllidol y Fenter ac edrych ar ffynonellau posib i ddatblygu'r Fenter ymhellach.
Sicrhau bod staff perthnasol yn mynychu hyfforddiant perthnasol a drefnir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg

Sicrhawyd grant gan **Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam** ar gyfer cyflogi **Swyddog Ieuenctid** hyd at 31 Mawrth 2012 . Llwyddodd y Fenter yn ychwanegol i ddenu nawdd o'r **Rhaglen Ddatblygu Wledig** sydd wedi ei gyllido yn rhannol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer y Prosiect Datblygu'r Iaith Gymraeg hyd at fis Chwefror 2011.

Cyfarfu'r Bwrdd Cyfarwyddwyr 4 gwaith rhwng Mis Ebrill 2009 a Mis Mawrth 2010

Pennod 10: Crynodeb o'r Datganiad Ariannol ar 31 Mawrth 2009

Gweler y manylion yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr a Datganiadau Ariannol am y cyfnod